

Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifon

ar gyfer y cyfnod

1 Ionawr 2020

hyd at

31 Rhagfyr 2020

**Anrhydeddus Gymdeithas Y Cymmrodorion
157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE**

Rhif Elusen Cofrestredig 313141
www.cymmrodorion.org



Anrhydeddus Gymdeithas Y Cymmrodorion

Adroddiad a Chyfrifon

Ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2020 hyd at 31 Rhagfyr 2020

Cynnwys	Tudalen
Gwybodaeth am Gyfeiriadau a Gweinyddiaeth	1
Llywodraethu	2
Strwythur Cyfundrefnol	3
Amcanion Elusennol	4
Gweithgareddau a Chyflawniadau	5
Sut mae Gweithgareddau'r Gymdeithas yn Cyflenwi Budd i'r Cyhoedd	7
Adolygiad Ariannol	8
Polisi ar Gadw a Buddsoddi Cronfeydd Wrth Gefn	9
Datganiad	10
Datganiadau Ariannol am y Flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2020	11

Gwybodaeth am Gyfeiriadau a Gweinyddiaeth

Enw'r Elusen:	Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion
Enw Saesneg:	The Honourable Society of Cymmrodorion
Rhif Cofrestru'r Elusen:	313141
Swyddfa Gofrestredig	157-163 Gray's Inn Road Llundain WC1X 8UE
Gwefan:	www.cymmrodorion.org
Noddwr Brenhinol:	Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru

Aelodau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr yr Elusen)

Mrs Sioned Bowen (2022)
Yr Athro Thomas M O Charles-Edwards
FRHistS FBA FLSW (2023)
Yr Athro W Stuart Cole CBE MSc FCIT FILT (2023)
Mr Rhys David (2021)
Mr Theo Davies-Lewis (cyfetholwyd 16 Tach 2020)
Mrs Elinor Talfan Delaney (2021)
Yr Athro Helen Fulton FLSW (2023)
Mr Michael Gibbon QC (2022)
Mr Robert John (2021)
Mr Mathew Kidwell (2023)
Yr Athro Prys Morgan DL FSA FRHistS FLSW (2021)
Ms Sian Tudor Reid (cyfetholwyd 25 Chwefror 2020)
Ms Ceridwen Roberts OBE FAcSS FLSW (2021)
Ms Rhian Medi Roberts (2021)
Dr Sara Elin Roberts (2022)
Dr Stephen Roberts (2022)
Dr Elizabeth Siberry OBE (cyfetholwyd 16 Tach 2020)
Mr Huw Wynne-Griffith (2023)

Ac eithrio ble nodir hynny, mae'r unigolion a restrir uchod wedi gwasanaethau fel Ymddiriedolwyr yr Elusen trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn. Nodir y flwyddyn pan fydd cyfnod presennol yr aelod yn dod i ben ar ôl eu henwau.

Archwiliwr Annibynnol

R A J Waddingham CBE FIA, Flat 33, Riverside Court, 20 Nine Elms Lane, Llundain SW8 5DB

Bancwyr

HSBC Bank plc, 196 Oxford Street, Llundain W1D 1N

Llywodraethu

Dogfen Llywodraethu: y Siarter Frenhinol

Sefydlwyd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1751 a derbyniodd ei Siarter Frenhinol yn 1951. Mae'r Siarter a'r Is-ddeddfau sydd nawr mewn grym wedi eu diwygio yn ôl Gorchymyn y Cyfrin Gyngor ar Orffennaf 21^{ain} 1999.

Cyfrifoldebau y Cyngor

Dan y Siarter, mae gan y Cyngor yr hawl "i reoli a meistroli'r Gymdeithas a gweinyddu'r holl eiddo a'r incwm sydd ynghlwm." Yn hynny, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros ddefnyddio pwerau'r Gymdeithas er hyrwyddo ei hamcanion. Diffinnir pwerau ac amcanion y Gymdeithas yn y Siarter. Mae'r Gymdeithas yn Elusen Gofrestredig (Rhif 313141) ac mae aelodau'r Cyngor yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr yr Elusen at ddibenion cyfraith elusen. Mae holl aelodau'r Cyngor yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac ni dderbyniant unrhyw fudd o'r elusen. Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cyfarfod dim llai na thair gwaith bob blwyddyn.

Recriwtio ac Apwyntio Aelodau'r Cyngor

Dan Siarter ac Is-ddeddfau'r Gymdeithas bwriedir fod:

- y Cyngor yn cynnwys dim llai na deuddeg a dim mwy na deg ar hugain o Aelodau;
- traean o aelodau'r Cyngor i ymddeol yn eu tro bob blwyddyn;
- aelodau'r Cyngor yn gymwys i'w hail-ethol heb gyfyngiad;
- seddi gwag i'w llenwi trwy etholiad gan Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gymdeithas;
- y Cyngor i gael y pŵer i lenwi seddi gwag ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn destun i gadarnhad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf.

Gall aelodau enwebu un neu fwy unigolyn o'u mysg i'w hethol i'r Cyngor gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Mae busnes Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol aelodau'r Gymdeithas yn cynnwys derbyn datganiad o'r Cyfrifon am y flwyddyn sy'n gorffen ar 31ain diwrnod y mis Rhagfyr blaenorol ac adroddiadau cysylltiedig, ynghyd ag ethol rhai Swyddogion y Gymdeithas ac aelodau'r Cyngor.

O ganlyniad i'r pandemig penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2020 i ganslo Cyfarfod Cyffredinol 2020 ac i gymryd y penderfyniadau canlynol er mwyn cynnal gallu'r Gymdeithas i weithredu.

- Ail-etholwyd Yr Athro Prys Morgan fel Llywydd am flwyddyn, ynghyd ag Is-lywyddion y Gymdeithas
- Ail-etholwyd aelodau'r Cyngor oedd â'u cyfnod ar y Cyngor yn dod i ben yn 2020 am gyfnod pellach o 2020 i 2023.
- Ail-apwyntiwyd R A J Waddingham CBE FIA fel archwiliwr annibynnol y cyfrifon am flwyddyn arall.

Cynefino a Hyfforddi Ymddiriedolwyr

Gofynnir i'r Ymddiriedolwyr adolygu canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar www.gov.uk; mae'r Cyngor yn derbyn diweddariad blynnyddol ar rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr yr Elusen. Mae gan aelodau'r Cyngor brofiad eang o lywodraethu a materion sy'n berthynol i weinyddiaeth elusennau ac maent yn gyfarwydd â nodau ac amcanion y Gymdeithas a'i gwaith.

Partïon Perthynol

Mae'r Gymdeithas yn sefydliad gwbl annibynnol ond mae'n mynd ar ôl rhyngweithio adeiladol gyda chynrychiolwyr nifer o gyrff eraill, yn enwedig cymdeithasau a sefydliadau cenedlaethol a lleol yng Nghymru a Llundain.

Rheolaeth Risg

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad blynyddol o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gymdeithas ac o'r gweithdrefnau a'r systemau sydd yn eu lle i reoli a lleihau'r risgiau a nodir.

Strwythur Cyfundrefnol

Swyddogion

Y Llywydd

Mae Llywydd y Gymdeithas yn aelod, *ex officio*, o'r Cyngor ac fe'i (h)etholir bob blwyddyn gan yr aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ail-etholwyd Yr Athro Prys Morgan i fod y Llywydd ar 23 Mai 2019.

Is-lywyddion

Dan yr Is-Ddeddfau gellir cael (nifer amhenodol o) Is-lywyddion sy'n destun i'w hethol neu eu hail-ethol bob blwyddyn gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae swydd Is-lywydd yn un anrhydeddus ac nid yw'r Is-lywyddion yn aelodau *ex officio* o'r Cyngor. Ail-etholwyd pymtheg Is-lywydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019. Bu farw Syr John Meurig Thomas, Is-lywydd ers blynyddoedd, ar Dachwedd 19^{eg} a bydd colled fawr ar ei ôl, yn union fel bydd colled enfawr ar ôl Dr Osian Ellis CBE, oedd yn Is-lywydd ers sawl blwyddyn ac a fu farw ar Ionawr 6^{ed} 2021.

Cadeirydd y Cyngor

Apwyntir Cadeirydd y Cyngor gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd, a ellir ei adnewyddu. Cadeirydd y Cyngor trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Ceridwen Roberts.

Trysorydd Mygedol

Apwyntir y Trysorydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd a ellir ei adnewyddu. Y Trysorydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Huw Wynne-Griffith.

Ysgrifennydd Mygedol

Apwyntir yr Ysgrifennydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd a ellir ei adnewyddu. Cyfetholwyd Sian Tudor Reid fel Ysgrifennydd Mygedol ar 25 Chwefror 2020.

Ysgrifennydd Digwyddiadau

Mae Ceridwen Roberts yn dal y swydd hon dros dro.

Golygydd Mygedol

Apwyntir y Golygydd Mygedol (sy'n golygu cylchgrawn y Gymdeithas, y *Trafodion*), gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd a ellir ei adnewyddu. Y Golygydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Yr Athro Helen Fulton.

Pwyllgorau'r Cyngor

Mae'r Pwyllgorau canlynol yn cefnogi gwaith y Cyngor gyda Phwyllgor Cyfathrebu a sefydlwyd yn 2020 er mwyn cefnogi natur newidiol cyfathrebu gyda'r aelodau ac eraill.

Pwyllgor Gweithredu

Aelodau *ex officio*: Ceridwen Roberts (Cadeirydd y Cyngor, a Chadeirydd); Huw Wynne-Griffith (Trysorydd Mygedol); Sian Tudor Reid (Ysgrifennydd Mygedol)

Aelodau a apwyntiwyd gan ac o'r Cyngor:

Elinor Talfan Delaney; Yr Athro Thomas Charles-Edwards

Pwyllgor Digwyddiadau

Aelodau *ex officio*: Yr Athro Prys Morgan (Llywydd)

Aelodau a apwyntiwyd gan ac o'r Cyngor:

Ceridwen Roberts (Cadeirydd), Yr Athro Stuart Cole; Robert John; Rhian Medi Roberts; Sioned Bowen

Aelodau a apwyntiwyd o blith aelodau'r Gymdeithas nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor:

Christopher Edwards

Pwyllgor Dyfarniadau a Medalau

Aelod *ex officio*: Yr Athro Prys Morgan (Llywydd) (Cadeirydd)

Aelodau a apwyntiwyd gan ac o'r Cyngor:

Yr Athro Stuart Cole; Elinor Talfan Delaney; Yr Athro Thomas Charles-Edwards; Michael Gibbon

Aelod a apwyntiwyd gan aelodau'r Gymdeithas nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor:

Yr Athro John Elliott

Pwyllgor Cyfathrebu

Aelodau a apwyntiwyd gan ac o'r Cyngor: Sian Tudor Reid (Cadeirydd); Rhys David; Theo Davies-Lewis; Rhian Medi Roberts

Dan y Siarter mae gan y Cyngor y grym i ddirprwyo'r oll neu unrhyw rai o'i rymoedd i bwyllgorau neu is-bwyllgorau ac mae ganddo gylch gorchwyl, wedi ei gymeradwyo, ar gyfer y Pwyllgor Gweithredu sy'n penodi'r amodau ble gall y pwyllgor hwnnw ymarfer rhai pwerau nodedig y Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion y Gymdeithas.

Amcanion Elusennol

Dan Siarter 1951 y Gymdeithas darperir fel a ganlyn:

Trwy hyn mae'r Gymdeithas yn gorfforedig ac yn gallu gweithredu gyda'r amcanion canlynol:

(A) Yn destun i unrhyw sancsiwn angenrheidiol neu ganiatâd i gymryd drosodd oddi wrth yr Hen Gymdeithas ei hasedau a'i dyledion ac i barhau a datblygu gwaith yr Hen Gymdeithas.

- (B) I annog astudiaeth ac ymchwil i Lenyddiaeth, Hanes, Y Celfyddydau a Gwyddoniaeth cyn belled â'u bod o ddiddordeb arbennig i Gymry.
- (C) I hyrwyddo datblygiad Llenyddiaeth, Y Celfyddydau a Gwyddoniaeth yng Nghymru.
- (CH) I ddarparu cyfleoedd i ysgolheigion i ddarllen papurau a chyhoeddi gwaith ar Lenyddiaeth, Hanes, Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau cyn belled â'u bod o ddiddordeb arbennig i Gymry.
- (D) I ddarparu fforwm cyffredin ar gyfer trafodaeth materion a symudiadau sy'n effeithio'n benodol ar ddiwylliant Cymreig.
- (DD) O bryd i'w gilydd i nodd mentrau newydd sydd o fantais i Gymru mewn ysgoloriaeth ac addysg.

Yn ychwanegol at yr amcanion hyn, mae'r Gymdeithas yn bodoli er mwyn hyrwyddo Llenyddiaeth, Hanes, Y Celfyddydau a Gwyddoniaeth (yn cynnwys y Gwyddorau Cymdeithasol) cyn belled â'u bod o ddiddordeb arbennig i Gymry, ac i hwyluso trafodaeth ar y pynciau hyn.

Gweithgareddau a Chyflawniadau

Parhaodd y Gymdeithas i gyflenwi ei hamcanion trwy gyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- trefnu rhaglen o ddarlithoedd a thrafodaethau;
- ystyried enwebiadau ar gyfer medal y Gymdeithas;
- cyhoeddi'r cylchgrawn, *Y Trafodion*, a darparu gwybodaeth ar-lein;
- annog astudiaeth ac ymchwil;
- gweithio gyda sefydliadau eraill.

Rhaglen o Ddarlithoedd a Thrafodaethau

Mae'r rhaglen o ddarlithoedd yn darparu llwyfan ar gyfer materion o bwys i Gymru i'w hystyried o fewn Cymru a thu hwnt i'w ffiniau. Cyhoeddir darlithoedd y Gymdeithas ar ei gwefan ac, fel arfer, er nid yn 2020, trwy raglen brintiedig a anfonir at yr aelodau. Maent yn agored i'r cyhoedd ac mae mynediad am ddim.

Roedd hon yn flwyddyn anarferol gyda darlithoedd wedi eu canslo o Fawrth 2020 ac yna eu cynnal ar-lein o Awst 2020.

Traddodwyd chwe darlith. Roedd y rhain yn cynnwys Darlith Goffa Flynyddol June Gruffydd a drefnwyd mewn cydweithrediad â Chymdeithas Maldwyn; a Darlith Goffa Flynyddol Syr Thomas Parry-Williams a gynhaliwyd ar-lein gan yr Eisteddfod Genedlaethol yn ei rhaglen AmGen 2020.

Dydd Mawrth 28 Ionawr 2020

Wales and the Sea: Some New Archaeological Perspectives

Dr Mark Rednap, Pennaeth Casgliadau ac Ymchwil, Adran Hanes ac Archeoleg, Amgueddfa

Genedlaethol Cymru

Ceridwen Roberts, Cadeirydd y Cyngor yn y gadair

Dydd Mawrth 26 Chwefror 2020

Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Maldwyn

Darlith Goffa June Gruffydd

The Novelist Elena Puw Morgan: Rethinking Modernism

Dr Mererid Puw Davies FLSW Athro Cyswllt, Pennaeth Almaeneg yng Ngholeg Prifysgol Llundain

John Jones, Cadeirydd Cymdeithas Maldwyn yn y gadair

Dydd Llun 3 Awst 2020

Darlith yr Eisteddfod

Darlith Goffa Flynyddol Syr Thomas Parry-Williams

Cyffro'r Newydd, Cysur y Cyfarwydd: Ar Drothwy Canmlwyddiant 'Mab y Bwthyn' Cynan

Yr Athro Gerwyn Williams, Ysgol Y Gymraeg, Prifysgol Bangor

Dydd Mawrth 20 Hydref 2020

The Jews of Wales

Dr Cai Parry-Jones

Ceridwen Roberts, Cadeirydd y Cyngor yn y gadair

Dydd Iau 19 Tachwedd 2020

Designing Wales: An Archive for Welsh Architecture

Dr Peter Wakelin, awdur a churadur yn arbenigo mewn treftadaeth adeiledig a chelf weledig

Rhian Medi Roberts, Aelod o'r Cyngor yn y gadair

Dydd Iau 10 Rhagfyr 2020

'Genius making its habitation among us': The musical vision for Wales of Walford Davies

Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwr Artistig, Gŵyl Gregynog a Chymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Bangor

Michael Gibbon QC, Aelod o'r Cyngor yn y gadair

Roedd y rhaglen o ansawdd uchel ac wedi ysgogi llawer o ddi-ddordeb. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r rhai a draddododd ddarlithoedd yn 2020, ac i'r rhai a gadeiriodd y cyfarfodydd. Mae'n ddiolchgar i'r Eisteddfod Genedlaethol am ddangos darlith yr Eisteddfod ar-lein yn ei raglen AmGen, a hefyd i Gymdeithas Maldwyn. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i staff Cymdeithas Feddygol Llundain ble rydym yn cynnal ein darlithoedd.

Mae'r darlithoedd ar-lein yn cael eu recordio ac maent ar gael ar wefan y Gymdeithas, gyda'r darlithoedd o Ionawr a Chwefror hefyd ar gael i'w clywed ar y wefan.

Cyhoeddiadau a gwybodaeth ar-lein

Mae rhannu gwybodaeth yn elfen allweddol o waith y Gymdeithas. Mae'n gwneud hyn ran fwyaf trwy gyhoeddi'r cylchgrawn *Y Trafodion*, a thrwy'r wefan.

Trafodion y Gymdeithas

Cyhoeddwyd Cyfrol 25 (2019) yng Nghyfres Newydd *Y Trafodion* yn ystod y flwyddyn ac anfonwyd copi at bob aelod unigol a sefydliadol y Gymdeithas yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r Cyngor yn diolch i'r holl gyfranwyr ac yn cofnodi ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan y Golygydd Mygedol a'r Bwrdd Golygyddol.

Mae erthyglau'r *Trafodion* o gyhoeddiadau hyd at 2005 ar gael trwy borth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, *Cylchgronau Cymru Ar-lein* ac mae erthyglau a gyhoeddwyd ers 2005 ar gael i'r cyhoedd (yn destun i waharddiad dwy flynedd ar ryddhau deunydd i rywrai nad sy'n aelodau o'r Gymdeithas) trwy wefan y Gymdeithas. Bydd testunau erthyglau o Gyfrol 22 (2016) a'r blynyddoedd sy'n dilyn hefyd ar gael ar-lein trwy gytundeb trwyddedu a gwblhawyd gyda EBSCO Information Services, cwmni o'r Unol Daleithiau sy'n darparu cronfa ddata a gwasanaethau llyfrgell eraill i sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill.

Darparu gwybodaeth ar-lein

Defnyddir y wefan i hysbysebu digwyddiadau'r Gymdeithas ac i roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau eraill a'r darlithoedd a recordiwyd. Anfonir e-byst yn rheolaidd at yr aelodau a defnyddir y cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau'r Gymdeithas.

Annog astudiaeth, ymchwil a gweithgareddau diwylliannol

Dros y blynyddoedd mae'r Gymdeithas wedi ceisio annog a chefnogi astudiaeth, ymchwil a gweithgareddau diwylliannol ar draws y meysydd sy'n destun i'w amcanion elusennol, yn cynnwys, o dro i dro, darparu grantiau i sefydliadau eraill. Parhaodd hyn yn ystod 2020.

Cadair Geltaidd Coleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen

Yn flaenorol roedd y Cyngor wedi rhoi cyfraniad ariannol i greu Cadair Geltaidd Coleg yr Iesu ac yn 2020 apwyntiwyd Yr Athro David Willis.

Gweithio gyda sefydliadau eraill

Mae adeiladu perthynas gyda chynrychiolwyr sefydliadau eraill yn agwedd bwysig o waith y Gymdeithas.

Parhaodd perthynas dda gyda sefydliadau eraill yn Llundain. Trefnwyd darlith gyda Chymdeithas Maldwyn a gobeithiwn yn 2021 i ail-afael mewn darlithoedd ar y cyd gyda Cymru yn Llundain. Hefyd parhaodd perthynas dda gyda Chanolfan Cymry Llundain sef cyfeiriad swyddogol y Gymdeithas, yn 157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi parhau i weithio gyda sefydliadau yng Nghymru neu sydd â chysylltiadau â Chymru. Parhaodd y cysylltiadau da gyda Swyddfa'r Noddwr Brenhinol, Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru. Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi cynnwys y Ddarlith Eisteddfod flynyddol, sef Darlith Goffa Syr Thomas Parry-Williams, yn Awst 2020 yn y rhaglen AmGen. Mae rhai aelodau o'r cyngor yn weithredol yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru, Sefydliad Materion Cymreig a Cymru a'r Byd, yn ogystal â Chanolfan Cymry Llundain, Cymru yn Llundain a'r Ysgol Gymraeg ynghyd â sawl capel Cymraeg a chymdeithasau hanesyddol a sefydliadau diwylliannol yng Nghymru.

Sut mae gweithgareddau'r Gymdeithas yn Cyflenwi Budd i'r Cyhoedd

Fel sy'n ofynnol dan dermau Deddf Elusennau 2011, mae amcanion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, a osodir yn y Siarter, yn "ddibenion elusennol" yn ôl diffiniad y Ddeddf. Maent yn cyflawni'r gofyn hwn oherwydd (i) eu bod er budd y cyhoedd a (ii) maent yn disgyn yn benodol o fewn y disgrifiad o'r ddau amcan a ddiffinnir yn Rhan 1, adran 2, isadran 2 y Ddeddf, hynny yw:

b) hyrwyddo addysg; a

dd) hyrwyddo'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth.

Mae gweithgareddau'r Gymdeithas sy'n cyflenwi budd i'r cyhoedd yn cynnwys yn benodol:

- (1) hybu, cefnogi a hyrwyddo astudiaeth ac ymchwil a rhannu casgliadau'r rheiny gyda'r cyhoedd;
- (2) hwyluso trafodaeth wybodus a rhyngweithio cyhoeddus ar ystod o faterion a phynciau gyda'r canlyniad bod gwelliannau yn nealltwriaeth y cyhoedd, ac yn iechyd bywyd deallusol yn gyffredinol, yn deillio o hynny.

Y bobl sy'n elwa o weithgareddau'r Gymdeithas yw'r cyhoedd a "chymdeithas" yn gyffredinol, yn Llundain ac yng Nghymru, yn benodol, ond hefyd yn fwy eang, fel nad oes cyfyngu daearyddol ar y buddion. Nid oes unrhyw gyfyngiadau yn seiliedig ar angen elusennol chwaith.

Cyflawna'r gweithgareddau fudd i'r cyhoedd mewn nifer o ffyrdd: trwy ddarparu llwyfan tu hwnt i ffiniau Cymru i ystyried materion o bwys i Gymru; trwy drefnu rhaglen o ddarlithoedd a thrafodaethau, yn cynnwys darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n agored i'r cyhoedd; trwy gefnogi gweithgareddau ysgolheigaidd ac ymchwil megis y Bywgraffiadur Cymreig; trwy gyhoeddi a lledaenu gwybodaeth yn y *Trafodion*, yn ogystal â thrwy ei gwefan ei hun, sy'n gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chael i gynulleidfa eang; a thrwy gydweithredu â sefydliadau eraill.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae aelodau'r Cyngor, wrth weithredu fel Ymddiriedolwyr yr elusen, wedi cydymffurfio â gofynion adrodd Budd y Cyhoedd sy'n berthnasol i elusennau llai o faint ac yn eu dyletswyddau wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn wrth ddefnyddio unrhyw bwerau neu ddyletswyddau sy'n berthnasol i'r canllawiau.

Adolygiad Ariannol

Ar ddiwedd 2020 roedd gwerth marchnad holl asedau'r Gymdeithas yn £192,999 o'i gymharu â £199,227 flwyddyn yn ôl. Roedd balansau arian parod y Gymdeithas ar ddiwedd 2020 yn £32,050 cynnydd o £6,860 dros y flwyddyn. Ar y llaw arall roedd gwerth marchnad buddsoddiadau'r Gymdeithas wedi gweld lleihad o £13,088 oherwydd y cwmp cyffredinol mewn marchnadoedd buddsoddi. Ar y cyfan, collwyd £6,228 o asedau'r Gymdeithas. Serch anawsterau 2020 barn y Trysorydd Mygedol yw bod safle ariannol y Gymdeithas yn parhau i fod yn iach ac y gall lefel y tanysgrifiadau aros yr un fath.

Dangosodd y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer 2020 bod £6,860 dros ben (o'i gymharu â £6,457 dros ben yn 2019). Roedd incwm buddsoddiadau o ecwiti wedi lleihau yn ôl y disgwyl, ac yn gyfan gwbl gwelwyd cwmp o £1,445 yn incwm y Gymdeithas. O ganlyniad i reoliadau'r cyfnod clo, nid oedd y Gymdeithas yn gallu cynnal ei rhaglen arferol o ddarlithoedd yn y cnawd ac felly penderfynodd y Cyngor i gynnal y cyfarfodydd hyn trwy bodlediadau a fideos. O'r herwydd, gwelwyd lleihad yn y gwariant ar ddarlithoedd ond cynyddodd y gwariant ar Dechnoleg Gwybodaeth (TG). Roedd cyfanswm y ddau bron yn union yr un fath â llynedd. Rhaid penderfynu ar strategaeth y dyfodol yn y maes hwn.

Parhaodd y Gymdeithas gyda'i pholisi o roi grantiau a rhoddion pan yn briodol.

Nid yw'r Gymdeithas yn cyflogi unrhyw staff ac felly nid oes unrhyw gostau ynghlwm â hyn. Mae hyrwyddo ei gweithgareddau'n ddibynnol iawn ar fewnbwn gwirfoddol aelodau'r Cyngor ac aelodau eraill y Gymdeithas.

Ystadegau'r Aelodaeth

Ar ddiwedd 2020 roedd gan y Gymdeithas 620 aelod. Dyma sut mae'r aelodaeth wedi ei rannu (gyda nifer 2019 mewn cromfachau):

Unigolion yn y DU	501	(497)
Sefydliadau y DU	61	(63)
Unigolion Dramor	19	(20)
Sefydliadau Dramor	39	(40)

Ymunodd 27 aelod newydd yn ystod 2020.

Polisi ar Gadw a Buddsoddi Arian wrth Gefn

Mae'r Gymdeithas wedi casglu arian wrth gefn dros y blynyddoedd. Crëwyd yr arian wrth gefn yma am ddau reswm:

- yn gyntaf, i sicrhau pe bae amgylchiadau ariannol anodd yn digwydd yna byddai gan y Gymdeithas ddigon o adnoddau iddi barhau i weithredu nes byddai amgylchiadau gwell yn dod, ac
- yn ail ac yn bwysig, i ddarparu cyllid i ariannu prosiectau penodol o natur cyfalaf a oedd yn rhy fawr i'w hamsugno gan lefelau normal incwm blynyddol y Gymdeithas.

Ystyria'r Cyngor y gwariant dan yr ail gategori fel "gwariant cyfalaf".

Asedau'r Gymdeithas ar 31 Rhagfyr 2020 oedd £192,999 sef arian parod o £32,050 ynghyd â buddsoddiadau gyda gwerth £160,949.

Nid oes cyfyngiadau ar sut y cymhwysir yr asedau ac mae'r Cyngor yn ystyried bod ganddo'r pŵer i gronni incwm sy'n weddill i mewn i'r arian wrth gefn. Fodd bynnag, nid bwriad y Cyngor yw cronni arian ac eithrio ar gyfer y dibenion a amlinellir uchod. Fel arfer nid oes bwriad i ychwanegu at fuddsoddiadau'r Gymdeithas (neu i'w gwireddu) ac eithrio pan fo arian wrth gefn yn annerbyniol o fawr.

Mae'r Gymdeithas wedi cymeradwyo polisi buddsoddi a adolygir yn flynyddol (yn fwyaf diweddar yn Chwefror 2020). Yn gyfredol, mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun elusennau-yn-unig, un wedi ei fuddsoddi mewn ecwiti ac un arall mewn bondiau. Rhennir y cronfeydd, yn fras gyfartal, rhwng dau sefydliad blaenllaw sy'n buddsoddi mewn elusennau sef M&G Investments and Schroder (gyda Cazenove).

Datganiad

Rydym yn ardystio ein bod wedi cymryd yr holl gamau a ddylem fod wedi eu cymryd er mwyn ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol ac i sefydlu bod archwiliwr annibynnol yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â:

- *Statement of Recommended Practice: Accounting and Reporting by Charities* (Ionawr 2015); a
- Chanllaw'r Comisiwn Elusennau, *Public benefit: the public benefit requirement (PB1); Public benefit: running a charity (PB2), and Public benefit: reporting (PB3)* (pob un ym Medi 2013).

Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad hwn ac arwyddwyd ar ei ran gan:



21 Chwefror 2021

Ceridwen Roberts (Cadeirydd y Cyngor)




21 Chwefror 2021

Huw Wynne-Griffith (Trysorydd Mygedol)

Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION

DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 RHAGFYR 2020

R A J Waddingham CBE
Cymrawd The Institute and Faculty of Actuaries
Flat 33
Riverside Court
20 Nine Elms Lane
Llundain
SW8 5DB

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwyr

Cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2020

Rwy'n cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolwyr yn dilyn fy archwiliad o gyfrifon yr elusen ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2020.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr elusennol yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoir cyfrifon yn unol â gofynion y Ddeddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Gallaf adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gyflawnwyd dan adran 145 y Ddeddf a thrwy gynnal fy archwiliad, fy mod wedi canlyn y cyfarwyddiadau perthnasol a roddir gan y Comisiwn Elusennau dan adran 145 (5)(b) y Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf na ddaeth unrhyw faterion perthnasol i'm sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw fodd perthnasol:

- Na chadwyd cofnodion y cyfrifon yn unol ag adran 130 y Ddeddf neu
- Nad yw'r cyfrifon yn unol â chofnodion y cyfrifon

Ni does gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt er mwyn cael dealltwriaeth go iawn o'r cyfrifon.



6 Chwefror 2021

R A J Waddingham CBE
Cymrawd The Institute and Faculty of Actuaries
Flat 33
Riverside Court
20 Nine Elms Lane
Llundain
SW8 5DB

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Cofnodion y Cyfrifon

Dan Adran 130 y Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol bod ymddiriedolwyr elusennau yn sicrhau bod cofnodion y cyfrifon yn cael eu cynnal ac yn ddigonol er mwyn:

- a) dangos ac esbonio holl drafodion yr elusen;
- b) datgelu, ar unrhyw adeg, a chyda chywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol yr elusen ar yr adeg honno;
- c) galluogi'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod unrhyw ddatganiad o'r cyfrifon sy'n ofynnol dan adran 132(1) yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau sy'n berthnasol;

ac, yn enwedig, i gynnwys

ch) cofnodion sy'n dangos, o ddydd i ddydd, yr holl arian a dderbyniwyd ac a wariwyd gan yr elusen, a'r materion mae'r derbyniadau a'r gwariant yn digwydd mewn perthynas â hwy.

dd) cofnodion o asedau a rhwymedigaethau'r elusen.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i rwystro ac i ganfod camgymeriadau, twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn disgwylir i'r ymddiriedolwyr ddethol polisiau cyfrif a'u cymhwyso'n gyson, gan lunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus. Cynlluniwyd y cyfrifon hyn ar sail "derbyniadau a thaliadau" yn ôl y disgrifiad yn adran 133 y Ddeddf Elusennau 2011.

DERBYNIADAU A THALIADAU

	2020	2019
DERBYNIADAU	£	£
Tanysgrifiadau	18,152	18,432
Cyfraniad Cymdeithas Maldwyn	300	200
Incwm o Fuddsoddiadau	5,597	6,578
Gwerthiant Y Bywgraffiadur Cymreig	0	0
Gwerthiant cyhoeddiadau eraill	49	78
Ad-daliad treth Rhodd Cymorth	3,008	3,223
Publishers Licensing Society	248	288
Cymynroddion a chyfraniadau	0	0
CYFANSWM Y DERBYNIADAU	27,354	28,799
TALIADAU		
Treuliau cyfarfodydd y darlithoedd	3,599	8,152
Cylchgrawn y Gymdeithas, <i>Y Trafodion</i>	5,250	5,250
Gwefan a TG	8,568	4,615
Postio ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol	84	488
Rhaglen	0	419
Rheolaeth yr Archif	47	44
Post arall	93	92
Gweinyddiaeth	68	512
Costau a thaliadau amrywiol eraill	3	70
Grantiau a Chyfraniadau	1,950	1,500
Charities Aid Foundation, PayPal a Chostau GoCardless	260	223
Medalau, cyflwyniadau a chofebion	0	0
Gwasanaethau cyfieithu	572	977
CYFANSWM Y TALIADAU	20,494	22,342
GWERTH DROS BEN Y DERBYNIADAU DROS DALIADAU	6,860	6,457

ATODLEN ASEDAU AR 31 RHAGFYR 2020

	2020	2019
	£	£
ASEDAU SEFYDLOG		
Buddsoddiadau ar gost (Nodyn)	154,767	154,767
ASEDAU CYFREDOL		
Prif Gyfrif HSBC	31,694	24,795
Cyfrif Adneuo HSBC	7	7
Ail Gyfrif HSBC	76	76
Cyfrif PayPal	273	312
CYFANSWM YR ASEDAU	<u>186,817</u>	<u>179,957</u>

Nodyn	2020	2020	2019	2019
	Cost	Gwerth	Cost	Gwerth
	£	£	£	£
Buddsoddiadau				
M&G Charifund	34,000	35,690	34,000	43,509
M&G Charibond	39,000	37,292	39,000	36,867
SUTL Cazenove Charity Equity Fund	42,767	44,055	42,767	52,486
SUTL Cazenove Charity Bond Fund	39,000	43,642	39,000	41,175
	<u>154,767</u>	<u>160,949</u>	<u>154,767</u>	<u>174,037</u>

Cysoni Cronfeydd	2020	2019
	£	£
Cronfeydd ar 1 Ionawr	179,957	173,500
Cronfeydd dros ben am y flwyddyn	6,860	6,457
Cronfeydd ar 31 Rhagfyr	186,817	179,957



6 Chwefror 2021

H R Wynne-Griffith
Ysgrifennydd Mygedol
Ar ran yr Ymddiriedolwyr